**ADRODDIAD I'R CABINET**
24.11.2015

## Aelod Cabinet: Y Cynghorydd Dafydd Meurig

## Pwnc: Gorchymyn Parcio Oddi ar y Stryd

## Swyddog cyswllt: Dafydd Gibbard

---

**Y penderfyniad a geisir**

Yn dilyn y broses ymgynghori, derbyn y newidiadau a nodir ym mharagraff 2.4 yr adroddiad a bwrw 'mlaen i sefydlu Gorchymyn Parcio newydd.

Dirprwyo hawl i Bennaeth Adran Rheoleiddio mewn ymgynghoriad â'r Aelod Cabinet dros Rheoleiddio, Pennaeth Cyfreithiol a'r Pennaeth Cyllid i wneud unrhyw fan addasiadau o fewn y strategaeth sydd eu hangen i'r cynllun er cwblhau y gorchymyn.

Cynnwys meysydd parcio staff y Cyngor yn y Gorchymyn Parcio er mwyn gallu rheoli cam ddefnydd ac agweddau iechyd a diogelwch yn fwy effeithlon.

---

## Barn yr aelod lleol

Bydd y Gorchymyn ei hun yn cyfarch y sir gyfan. Wrth gwrs, roedd yr ymgynghoriad a gafwyd yn rhoi sylw i feysydd parcio unigol a rhopddwyd cyfle i aelodau lleol a chynghorau cymuned a thref ymateb i'r cynigion hynny. Mae'r sylwadau a dderbyniwyd wedi eu crynhoi yn Atodiad 1.

---

**1.0 Cyflwyniad**

1.1 Yng nghyfarfod y Cabinet ar Chwefror y 19eg eleni, mabwysiadwyd argymhellion oedd yn deillio o adolygiad cyfansawdd o bob agwedd yn ymwneud â rheolaeth parcio yn y sir.

1.2 Cyn hynny, roedd polisïau a gweithdrefnau parcio Cyngor Gwynedd wedi aros yr un fath fwy neu lai ers 2007. Roedd felly'n amserol eu hadolygu er mwyn asesu p'un a oedd y trefniadau rheoli cyfredol yn cwrdd ag anghenion y Cyngor ac anghenion y cymunedau y mae'n eu cynrychioli.

1.3 Roedd argymhellion yr adroddiad yn gosod cyfeiriad, meini prawf a chanllawiau ar gyfer nifer o agweddau gwahanol yn ymwneud â rheoli parcio. Cyn i'r Cabinet eu mabwysiadu cafodd yr holl

gynigion eu craffu gan y Pwyllgor Craffu Cymunedau a rhoddwyd sylw i'w hargymhellion cyn llunio'r strategaeth derfynol. Wrth lunio'r Strategaeth rhoddwyd ystyriaeth hefyd i faterion cydraddoldeb ac adnabuwyd y bydd angen asesiad llawn cyn gweithredu rhai agweddau.

1.4 Mae'r adroddiad hwn yn delio'n benodol ag un maes – sef creu meysydd parcio talu ac arddangos o'r newydd. Trwy ddefnyddio'r meini prawf a fabwysiadwyd ar gyfer dynodi meysydd parcio Arhosiad Byr, Arhosiad Hir a pharcio am ddim, a'r meini prawf a fabwysiadwyd ar gyfer bandio gwahanol leoliadau ar draws y Sir ar gyfer pennu lefelau ffioedd parcio, roedd hyn yn golygu bod oddeutu 1,163 o lecynnau parcio ychwanegol yn dod yn llefydd parcio talu ac arddangos am y tro cyntaf.

1.5 Cyn gallu symud ymlaen i godi tâl ar y llecynnau hyn, mae deddfwriaeth yn mynnu fod angen cynnal ymgynghoriad statudol gyda grwpiau ac unigolion penodol. Prif bwrpas yr adroddiad hwn yw cyflwyno canlyniad yr ymgynghoriad statudol hwnnw ac argymell rhai newidiadau yn ei sgil. Yn dilyn hyn bydd modd symud ymlaen i gyflwyno Gorchymyn Parcio i weithredu trefn talu ac arddangos ar lecynnau ychwanegol yn unol â'r egwyddorion a meini prawf a fabwysiadwyd yn Chwefror.

1.6 Mae'r broses ymgysylltu o ran y materion eraill ( h.y. materion heblaw meysydd parcio talu ac arddangos) oedd yn rhan o'r adroddiad ym mis Chwefror yn parhau i fynd rhagddo a byddwn yn cyflwyno adroddiad pellach ar ganlyniad y broses honno yn y flwyddyn newydd.

## 2.0 Casgliadau'r ymgynghori

2.1 Roedd yr adroddiad yn Chwefror yn nodi'r rhestr ganlynol o feysydd parcio a fyddai, yn sgil mabwysiadau'r meini prawf newydd, yn dod yn feysydd parcio talu ac arddangos:

| Arfon | Dynodiad | Band ffi | Nifer llecynnau parcio |
|---|---|---|---|
| Safle Shell, Caernarfon | Hir | 2 | 160 |
| Dau faes parcio ar Ffordd y Traeth, Hirael, Bangor | Hir | 4 | 20 + 50 |
| Cae Star, Bethesda | Hir | 4 | 55 |
| Pant Dreiniog, Bethesda | Hir | 4 | 70 |
| Dwyfor | | | |
| Maes parcio ger tafarn y Black Lion, Pwllheli | Hir | 2 | 63 |
| Penmount, Pwllheli | Hir | 2 | 59 |
| Traeth y De, Pwllheli | Hir | 2 | 15 |
| Cefn Stryd Lombard, Porthmadog | Byr | 2 | 30 |
| Borth y Gest, Porthmadog | Hir | 2 | 60 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Cei Bach, Porthmadog | Byr | 2 | 18 |
| Abereistedd, Cricieth | Hir | 3 | 20 |
| Maes Parcio, Porth Neigwl | Hir | 4 | 25 |
| Afonfawr, Penllech, Pen Llŷn | Hir | 4 | 40 |
| Glan Pwll, Nefyn | Hir | 4 | 50 |
| Y Ddôl, Nefyn | Hir | 4 | 50 |
| Colwyn Banc, Beddgelert | Hir | 4 | 50 |
| Meirionnydd | | | |
| Sgwâr Talbot, Barmouth | Byr | 3 | 40 |
| Neuadd Dyfi, Aberdyfi | Hir | 3 | 30 |
| Castle Hotel, Harlech | Byr | 3 | 25 |
| Rhodfa'r Môr, Tywyn | Hir | 3 | 114 |
| Cae Bach, Tywyn | Hir | 3 | 60 |
| Prif Faes Parcio, Penrhyndeudraeth | Hir | 4 | 40 |
| Prif Faes Parcio, Trawsfynydd | Hir | 4 | 19 |

2.2 Yn unol â'r gofynion statudol ar gyfer gallu newid dynodiad maes parcio, ymgynghorwyd gyda'r gwasanaethau brys, cymdeithasau trafnidiaeth a chludiant, Post Brenhinol ayb. Penderfynodd yr Aelod Cabinet y dylid ymestyn yr ymarferiad hwn i fod yn broses ymgysylltu ehangach i gynnwys yr Aelodau Cyngor Gwynedd perthnasol ynghyd a Chynghorau Tref a Chymuned a chynrychiolwyr byd busnes ble lleolir y meysydd parcio dan sylw. Bu i swyddogion gyfarfod gyda phob Cyngor Tref a Chymuned sy'n cael eu heffeithio gan y newid dan sylw.

2.3 Mae sylwadau llawn y rhai a ymatebodd i'r ymgynghori a'r ymgysylltu i'w gweld yn Atodiad 1. Gyferbyn a'r sylwadau gwelir ymateb yr Adran. Yn y rhan helaeth o achosion, ym marn swyddogion a'r Aelod Cabinet nid yw'r sylwadau a dderbyniwyd yn rhoi cyfiawnhad digonol i hepgor cyflwyno trefniadau talu ac arddangos yn y rhan fwyaf o'r lleoliadau dan sylw.

2.4 Fodd bynnag, derbyniwyd nifer o sylwadau synhwyrol a rhesymegol iawn. Mewn rhai achosion derbyniwyd gwybodaeth newydd wrth edrych ar leoliadau unigol mewn manylder. Yn sgil hyn, mae swyddogion a'r Aelod Cabinet o'r farn fod rhai materion y dylid ystyried eu newid:

2.4.1 **Maes Parcio Porth Neigwl** – yn dilyn trafodaethau yn lleol a gyda'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol, mae'n ymddangos nad y Cyngor yw gwir berchennog y tir lle saif y maes parcio yma. O ganlyniad bydd angen hepgor y lleoliad hwn o'r Gorchymyn Parcio Newydd.

2.4.2 **Cae Bach, Tywyn** – yn dilyn trafodaethau yn lleol ymddengys fod perchnogaeth y safle hon wedi ei throsglwyddo i Gartrefi Cymunedol Gwynedd fel rhan o'r trosglwyddiad stoc tai. O ganlyniad bydd angen hepgor y lleoliad hwn o'r Gorchymyn Parcio Newydd

2.4.3 **Neuadd Dyfi, Aberdyfi** – mae'r safle hon wedi ei phrydlesu i Gyngor Tref Aberdyfi ac yn ddiweddar maent wedi cyflwyno trefniadau rheoli effeithlon iawn sy'n cynnwys trefniadau talu ac arddangos. O ganlyniad nid yw'n bosib i Gyngor Gwynedd gyflwyno trefniadau ein hunain ar y safle hon.

2.4.4 **Afonfawr, Penllech, Tudweiliog** – yn wreiddiol nodwyd fod y maes parcio hwn yn disgyn i fand 4 o dan y meini prawf gan ei fod yn faes parcio sy'n cael ei effeithio gan y tymor gwyliau ac felly'n briodol codi tâl am barcio yno. Yn dilyn trafodaethau yn lleol mae amheuaeth os yw hyn yn gywir. Yn sgil hyn, bwriedir oedi am flwyddyn cyn penderfynu os yw'n briodol cyflwyno trefniadau talu ac arddangos er mwyn gallu asesu'r safle eto yn nhymor gwyliau 2016. Yn y cyfamser bydd y safle yn cael ei chynnwys yn y Gorchymyn Parcio newydd fel bod y broses gyfreithiol wedi ei chwblhau pe byddai angen cyflwyno trefniadau talu ac arddangos yn y dyfodol a bydd yn hwyluso rheolaeth effeithlon o gam ddefnydd .

2.4.5 **Trawsfynydd -** yn wreiddiol nodwyd fod y maes parcio hwn yn disgyn i fand 4. Yn dilyn trafodaethau yn lleol fe ail aseswyd y safle o dan y meini prawf. Canlyniad hyn oedd penderfynu na ddylai fod wedi ei ddynodi o dan fand 4 yn wreiddiol. O ganlyniad ni fydd trefniant talu ac arddangos yn cael eu cyflwyno ar y safle hon ond bydd yn cael ei chynnwys yn y Gorchymyn Parcio Newydd er mwyn hwyluso rheolaeth effeithlon o gam ddefnydd.

2.4.6 **Ffordd y Traeth, Bangor** – mae dau faes parcio yn y lleoliad yma. Y farn gafwyd wrth ymgynghori oedd mai meysydd parcio yn gwasanaethau Hirael ydi'r ddau yma ac nid rhai sy'n gwasanaethu canol dinas Bangor. O ail edrych ar y rhagdybiaethau gwreiddiol rhaid cydnabod fod hyn yn synhwyrol. O ganlyniad ni fydd trefniant talu ac arddangos yn cael eu cyflwyno ar y safleoedd hyn ond byddant yn cael eu cynnwys yn y Gorchymyn Parcio newydd er mwyn hwyluso rheolaeth effeithlon o gam ddefnydd.

2.4.7 **Glan y Pwll a'r Ddôl, Nefyn –** Y farn gafwyd wrth ymgynghori oedd mai meysydd parcio yn gwasanaethau trigolion lleol ydi'r ddau yma ac nid ydynt mewn lleoliadau sy'n cael eu heffeithio gan y tymor gwyliau. Wrth ail asesu yn erbyn y meini prawf, ymddengys mai yng Nghategori 5 y dylai'r ddau faes parcio yma eistedd. O ganlyniad ni fydd trefniant talu ac arddangos yn cael ei gyflwyno ar y safleoedd hyn ond byddant yn cael eu cynnwys yn y Gorchymyn Parcio newydd er mwyn hwyluso rheolaeth effeithlon o gam ddefnydd.

2.4.8 **Codi am barcio tu allan i'r tymor gwyliau –** mae rhai safleoedd wedi eu cynnwys o'r newydd oherwydd eu bod mewn lleoliad sy'n cael ei effeithio gan y tymor gwyliau. Cafwyd sawl sylw yn cyfeirio mai yn ystod y tymor gwyliau yn unig y dylid codi tâl am barcio yn y lleoliadau hyn felly. Rhaid cydnabod fod hon yn ddadl synhwyrol ac felly ni fwriedir codi tâl am barcio tu allan i'r tymor gwyliau yn y lleoliadau sydd wedi eu cynnwys o'r newydd ar y sail eu bod mewn lleoliad sy'n cael ei effeithio gan y tymor gwyliau. Byddwn yn diffinio "tymor gwyliau" fel y cyfnod o gychwyn Mawrth hyd ddiwedd Tachwedd. Mae'r dwysedd

defnydd tu allan i'r cyfnodau hyn yn isel iawn ac ni fyddem wedi blaenoriaethau adnoddau gorfodaeth i'r lleoliadau hyn ar yr adegau yma o'r flwyddyn. Ni fydd yr addasiad yma'n cael unrhyw effaith o sylwedd ar yr achos busnes, yn arbennig o gofio ein bod wedi defnyddio dadansoddiad sensitifrwydd oedd wedi ei seilio ar yr achos ariannol gwaethaf tebygol.

2.4.9 **Rheolaeth o Feysydd Parcio Swyddfeydd y Cyngor** – Wrth ymgynghori mewn sawl lleoliad yn y sir, derbyniwyd sylwadau yn cyfeirio at ddiffyg rheolaeth o feysydd parcio swyddfeydd y Cyngor. Ar hyn o bryd nid oes Gorchymyn Parcio ar y lleoliadau hyn ac felly ni ellir defnyddio'r drefn gorfodaeth i'w rheoli. Mae nifer o broblemau iechyd a diogelwch na ellir eu rheoli'n effeithlon yn codi'n barhaus ac mae parcio blêr yn arwain at ddiffyg llefydd parcio digonol. Argymhellir felly fod y meysydd parcio canlynol yn cael eu cynnwys yn y Gorchymyn newydd, er mwyn hwyluso rheolaeth effeithlon drwy'r drefn gorfodaeth:

- Doc Fictoria, Caernarfon
- Penrallt, Caernarfon
- Frondeg, Pwllheli
- Ffordd y Cob, Pwllheli,
- Cae Penarlag, Dolgellau
- Neuadd y Dref, Bangor

2.5 Er gwaethaf y ffaith fod yr adroddiad ym mis Chwefror eisoes wedi gosod allan y meini prawf ar gyfer dynodi llecynnau parcio yn rhai talu ac arddangos, gan fod y Cabinet wedi ystyried y mater y tro cyntaf, ac wedi gwneud hynny ar sail achos busnes penodol, cyflwynir y mater ger bron y Cabinet eto yn sgil y newidiadau a nodir.

2.6 Gyda phroses fel hon sy'n edrych ar sawl ffactor mewn nifer sylweddol o leoliadau unigol, ac yn dilyn proses statudol gaeth, mae posibilrwydd y bydd angen rhai newidiadau pellach cyn y gellir cwblhau'r Gorchymyn newydd yn derfynol.

2.7 Hefyd, yn yr adroddiad mis Chwefror mabwysiadwyd yr egwyddor o barhau i gynnig gwasanaeth rheoli meysydd parcio preifat lle bo'r cyfle yn codi i'r Cyngor wneud hyn mewn modd cost-effeithiol. Mewn achosion o'r fath mae gofyn gwneud newid i'r Gorchymyn Parcio ac felly byddai angen dod a'r mater ger bron y Cabinet cyn gallu gweithredu ym mhob achos unigol.

2.8 Er mwyn osgoi unrhyw oedi pellach cyn gallu gweithredu'r egwyddorion sydd eisoes wedi eu mabwysiadu gan y Cabinet o ran parcio oddi ar y stryd, argymhellir y dylai unrhyw newidiadau pellach i'r Gorchymyn, sy'n unol a'r meini prawf sydd wedi eu gosod gan y Cabinet, gael eu hawdurdodi gan y Pennaeth Adran mewn ymgynghoriad a'r Aelod Cabinet.

**3.0 Newid i'r achos busnes**

3.1 Ar sail y gwaith modelu a wnaed gan yr Adran Rheoleiddio a'r Adran Gyllid ar gyfer yr adroddiad yn Chwefror, rhagamcanwyd y dylai ychwanegu'r llecynnau ychwanegol y rhestr meysydd parcio talu ac arddangos greu incwm blynyddol newydd o tua £179,000 i'r Cyngor.

3.2 Wrth gyfrifo'r tafluniad defnyddiwyd amcangyfrifon incwm yn seiliedig ar ddadansoddiad sensitifrwydd i sefydlu'r refeniw ychwanegol mwyaf tebygol fyddai'n cael ei dderbyn.

3.3 O wrando ar y sylwadau a dderbyniwyd a derbyn yr argymhelliad i wneud y newidiadau amlinellwyd yn 2.4 uchod, byddai hyn yn arwain at incwm blynyddol newydd oddeutu £158,000, sef £21,000 yn llai na'r rhagamcan gwreiddiol.

3.4 Wrth lunio'r rhagamcan hwn, defnyddiwyd yr un sail i'r dadansoddiad sensitifrwydd ag a wnaethpwyd yn yr adroddiad ym mis Chwefror h.y. mae'n tueddu tuag at y senario gwaethaf sy'n debygol yn hytrach na rhagamcanu'n orhyderus.

**4.0 Argymhellion**

4.1 Yn dilyn y broses ymgynghori, derbyn y newidiadau a nodir ym mharagraff 2.4 yr adroddiad a bwrw 'mlaen i sefydlu Gorchymyn Parcio newydd.

*4.2* Dirprwyo hawl i Bennaeth Adran Rheoleiddio mewn ymgynghoriad â'r Aelod Cabinet dros Rheoleiddio, Pennaeth Cyfreithiol a'r Pennaeth Cyllid i wneud unrhyw fan addasiadau o fewn y strategaeth sydd eu hangen i'r cynllun er cwblhau y gorchymyn.

4.3 Cynnwys meysydd parcio staff y Cyngor yn y Gorchymyn Parcio er mwyn gallu rheoli cam ddefnydd ac agweddau iechyd a diogelwch yn fwy effeithlon.

---

## Barn y swyddogion statudol

**Y Prif Weithredwr:**

"Mae'r adroddiad yn nodi'r ymgynghori a fu efo aelodau a chymunedau lleol ar y cynigion sydd gerbron ac yn dangos yr enghreifftiau lle y mae'r cynigion wedi eu newid yn sgil yr ymgynghori hynny. Yn amlwg, ni fu'n bosib cytuno efo pob sylw a dderbyniwyd yn yr ymgynghoriad ond mae ymateb i bob sylw yn cael ei adrodd. Ffactor bwysig arall yw'r arbediad ariannol sydd yn dod yn sgil y newidiadau hyn, sydd yn gyfraniad arwyddocaol at arbedion effeithlonrwydd sydd wedi eu haddo yn barod sydd, yn eu tro, yn lleihau'r gofyn am doriadau mewn cyfeiriadau eraill."

**Y Swyddog Monitro:**

“Mae’r adroddiad yn rhoi sylw i ganlyniadau proses ymgynhorol ar y Gorchymyn Parcio Oddi ar y Stryd arfaethedig.  Rhoddir ystyriaeth briodol i ganlyniadu’r ymgynhoriad sydd yn cynnwys cynnig  addasiadau. Bydd angen gweithredu trefn hysbysebu statudol gan gynnwys cyfnod gwrthwynebu er dod a’r gorchymyn i rym.  Mae’r argymhellion yn felly’n briodol.”

### Y Pennaeth Cyllid:

“Cadarnhaf fod swyddogion o’r Adran Cyllid wedi cynorthwyo’r awdur i baratoi’r adroddiad ac rwy’n fodlon gyda chywirdeb y ffigyrau.  Hefyd, nodaf fod yr incwm perthnasol am gyfrannu at gynllun arbediad sydd eisoes wedi’i gymeradwyo mewn egwyddor.

Mewn blynyddoedd diweddar, mae’r Cyngor wedi rhewi prisiau parcio, yn hytrach na’u codi gyda 15% o chwyddiant, gyda golwg ar economi canol trefi.  Credaf fod y drefn argymhellir yma ac yn yr adroddiad i’r cyfarfod Cabinet 19/02/15 yn synhwyrol ac yn dilyn ystyriaeth briodol.”

---

### Atodiadau

Atodiad 1 - Ymateb i’r Ymgynghoriad statudol a’r cyfarfodydd ymgysylltu